



**Llunio Lleoedd**  
ar gyfer Llesiant yng Nghymru  
**Shaping Places**  
for Well-being in Wales

# Dull Cymhwysol Meddwl trwy Systemau

Canllaw i'r Offer a'r Dulliau



## Awduron

Christian Heathcote-Elliott, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus,  
Cathrine Winding, Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus ac Emily Woodward-Esseen,  
Prif Ymarferydd Dull Cymhwysol Meddwl trwy Systemau

## Cydnabyddiaethau

Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a gyfrannodd at ddatblygu'r canllaw ac a roddodd adborth ar y dylunwaith a'r cynnwys:

- ▶ Dr Ciarán Humphreys, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd
- ▶ Dr Lesley Rowan, Darlithydd Cyswllt ym Mhrifysgol Exeter ac Ymgynghorydd yn Engage South West
- ▶ James Langridge-Thomas, Cydlynnydd BGC, Cyngor Sir Powys
- ▶ Petranka Malcheva, Arweinydd Polisi: Iechyd, meddwl hirdymor, atal, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru
- ▶ Lloyd Fisher, Uwch Swyddog Data a Pholisi, Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
- ▶ Bwrdd Cynghori Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru

ISBN: 978-1-83766-487-0

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen y Sefydliad Iechyd, Llunio Lleoedd. Mae'r Sefydliad Iechyd yn sefydliad elusennol annibynnol sy'n gweithio i adeiladu Teyrnas Unedig iachach.

©2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

This resource is available in English

## Cynnwys

**Cyflwyniad i'r canllaw hwn 4**

**Delweddau manwl o syniadau 5**

**Model mochyn 7**

**Mapio systemau cyfranogol 11**

**Mapio actorion 15**

**Dadansoddi'ch mapiau 17**

**Dadansoddi pwyntiau trosoledd 19**

**Tri gorwel 21**

**Ôl-olygu 24**

**Theori newid 26**

**Cyfeiriadau 29**

**Manylion cyswllt 30**

## Cyflwyniad i'r canllaw hwn

Mae hwn yn ganllaw ymarferol ar gyfer ystod o offer a dulliau systemau sy'n ategu'r gweithgareddau a ddisgrifir yn y canllaw Dull Cymhwysol Meddwl trwy Systemau. Nid yw'r offer sydd wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn yn rhestr gynhwysfawr o bell ffordd, ond yn hytrach yn gyflwyniad i rai o'r offer meddwl trwy systemau a ddefnyddir amlaf. Bydd y canllaw hefyd yn cyfeirio'r dysgwyr at adnoddau eraill sydd â sicrwydd ansawdd.

Un o nodau craidd y rhaglen hon yw cymhwyso ac integreiddio'ch gwaith dysgu yng ngwaith eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Pan fyddwch chi'n defnyddio'r offer a'r dulliau hyn gyda'ch BGC a'ch timau cymorth, mae'n debygol y bydd angen ichi eu teilwra at eich cyd-destun lleol, dod ag arbenigwyr pwnc i mewn ac ymwneud â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys cymunedau lleol.

Gall yr offer a'r dulliau hyn fod yn fuddiol hefyd wrth ystyried gwerthuso a mesur newid mewn systemau.

### Gweithgaredd Dull Cymhwysol Meddwl trwy Systemau

Offer a dulliau sy'n ategu'r gweithgaredd

### Diffinio'r system-o-ddiddordeb

Delweddau manwl o syniadau  
Model mochyn  
Mapio cyd-destun

### Mapio'r system

Mapio systemau cyfranogol

### Archwilio'r system

Mapio actorion  
Dadansoddi'ch mapiau  
Dadansoddi pwyntiau trosoledd

### Disgrifio'r newid a ddymunir

Tri Gorwel  
Ôl-olygu  
Theori newid

### Gwerthuso systemau

Dadansoddi pwyntiau trosoledd




## Delweddau manwl o syniadau

### Beth yw hyn?


Mae delweddau manwl o syniadau yn dechreg weledol a all eich helpu i ddeall gwahanol safbwyntiau ar thema neu ar fater o fewn thema. Mae delweddau manwl o syniadau yn dangos pethau, pobl, syniadau, emosiynau, gwrthdaro, rhagdybiaethau a chysylltiadau. Gallan nhw gael eu llunio gan unigolion neu mewn grwpiau bach ac maen nhw'n caniatáu ichi lunio crynodeb yn gyflym o'r hyn sy'n bwysig o wahanol safbwyntiau.

### Enghraifft o ddelwedd fanwl o syniadau



### Pryd i'w ddefnyddio

Gall delweddau manwl o syniadau eich helpu i weithio gydag eraill i ddeall safbwyntiau ar thema neu i nodi materion o fewn thema. Ar sail y rhain, mae modd cytuno ar systemau-o-ddiddordeb a fydd yn sail i'r gwaith y byddwch yn ei wneud yn y grŵp dysgu a chyda'ch cydweithwyr o'r BGC.



### Sut i'w ddefnyddio

Gellir gwneud ymarfer delweddau manwl o syniadau ar-lein ond efallai y bydd yn haws ichi ei wneud â beiros a darn mawr o bapur. Mae modd cwblhau delweddau manwl o syniadau mewn rhyw 20-30 munud er y gallech chi weld bod y cyfranogwyr yn awyddus i ychwanegu rhagor ar ôl cael egwyl a dod yn ôl i edrych ar eu delwedd eto. I ddechrau, amlinellwch y thema neu'r mater o fewn thema rydych chi am i'r bobl dynnu delwedd fanwl ohoni.

Anogwch bobl i ddechrau lluniadu, yn unigol neu ar y cyd mewn grwpiau bach. Does dim ffordd gywir nac anghywir o wneud hyn ac fe all gynnwys rhywfaint o destun neu beidio.

Rhowch amser i'r cyfranogwyr adrodd eu stori a ddangosir yn eu delweddau manwl ac amser ar gyfer trafodaeth grŵp ar y tebygrwyddau a'r gwahaniaethau rhwng y delweddau manwl ac a oes unrhyw bethau annisgwyl.

## Ystyriaethau

- ▶ Mae'n well llunio delweddau manwl o syniadau yn bersonol gan ddefnyddio papur a pheniau ond mae modd eu datblygu ar-lein os oes gennych fynediad at feddalwedd luniadu.
- ▶ Gallwch lunio canllaw gyda lluniau enghreifftiol i helpu i ddatgloi syniadau pobl.
- ▶ Mae angen ichi bwysleisio nad yw hyn yn ymwneud â pha mor dda y gall person dynnu llun ac nad oes atebion cywir nac anghywir.
- ▶ Anogwch bobl i beidio â strwythuro'u delwedd fanwl ac i ddefnyddio cyn lleied â phosibl o destun.
- ▶ Anogwch bobl i gynnwys safbwyntiau eraill fel y rhai y mae mater yn effeithio arnyn nhw yn ogystal â'r rhai sydd â'r pŵer i newid mater.
- ▶ Gallwch ofyn i bobl gynnwys delwedd ohonyn nhw eu hunain yn y llun.
- ▶ Dylai delweddau manwl o syniadau nid yn unig ystyried agweddau problematig ar sefyllfa ond hefyd asedau a chyfleoedd.

## Gwybodaeth ategol



[An introductory systems thinking toolkit for civil servants \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

[If a picture paints a thousand words: The use of rich pictures in evaluation \(Pragmatica Ltd\)](#)

[Systems Mapping: How to build and use causal models of systems – pennod 2 \(Barbrook-Johnson & Penn\)](#)



**Meddalwedd am ddim ar gyfer llunio delweddau manwl o syniadau:**

[Insight maker](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Cymryd rhan



Mae delwedd fanwl o syniadau yn weithgaredd trochi a gall ddod â rhagdybiaethau, credoau a modelau meddyliol pobl o'r byd i'w wyneb. Gall delwedd fanwl o syniadau helpu pobl i ddod at ei gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ac i gymryd safbwynt mwy tosturiol pan fydd gan bobl safbwyntiau gwahanol.

### Cydweithredu



Os datblygir delwedd fanwl o syniadau ar y cyd gall hyn fod yn fan cychwyn i ymdrechion cydweithredol.

## Model mochyn

### Beth yw hyn?

Mae model mochyn yn dechneg diagramu sy'n eich helpu i feddwl yn systematig trwy ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid sy'n effeithio ar thema neu fater o fewn thema ac sy'n cael eu heffeithio gan y thema neu'r mater.



### Sut i'w ddefnyddio


Wrth wneud yr ymarfer hwn yn eich grŵp dysgu neu gyda'ch BGC, defnyddiwch ddarn mawr o bapur a pheniau o wahanol liwiau i dynnu sylw at wahanol randdeiliaid. Gallai'r ymarfer gael ei wneud hefyd yn rhithwir drwy ddefnyddio meddalwedd cydweithredu ar-lein. Defnyddiwch dempled y model mochyn i greu eich diagram chi'ch hun.

Os oes gennych gynrychiolwyr o wahanol randdeiliaid yn eich grŵp, gofynnwch iddyn nhw am eu persbectif ar thema neu fater o fewn thema. Os nad yw'r rhanddeiliad wedi'i gynrychioli'n uniongyrchol a'ch bod chi'n defnyddio mewnwelediadau o'ch grŵp dysgu neu'ch BGC amlygwch hyn ar eich model mochyn. Efallai y byddwch chi am ddilysu'r mewnwelediadau hyn trwy ofyn am wybodaeth ychwanegol.




### Pryd i'w ddefnyddio

Gall modelau mochyn eich helpu chi a'ch BGC i ystyried yr ystod o randdeiliaid a'u gwahanol safbwyntiau at thema neu fater o fewn thema. Gall hyn helpu i bennu'r ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb a phwy sydd angen cael eu cynnwys wrth ichi wneud gwaith mapio systemau cyfranogol.



### Templed model mochyn



## Ystyriaethau

- ▶ Gellir gwneud y gweithgaredd mewn 10-15 munud i roi trosolwg cyflym ichi o'r rhanddeiliaid sy'n berthnasol i thema neu fater o fewn thema.
- ▶ Ystyriwch amrywiaeth o bobl a sefydliadau sydd â rhan yn y thema neu'r mater.

Y rhai sy'n effeithio ar y thema / mater		Y rhai y mae'r thema / mater yn effeithio arnynt
<b>Perchnogion</b>	<b>Actorion</b>	
Pobl neu sefydliadau sy'n galluogi neu'n atal newid	Y rhai a allai fod yn cyflawni'r tasgau a'r gweithgareddau i wella'r sefyllfa sy'n peri pryder	Gallai'r rhain fod yn boblogaethau, grwpiau cymunedol neu sefydliadau penodol

Wedi'i addasu o: An Introductory systems thinking toolkit for civil servants (Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth)

Gall y model mochyn eich helpu i feddwl am ble i osod y ffin ar gyfer eich system-o-ddiddordeb a pha rhanddeiliaid yr hoffech eu cynnwys.

Ar ôl cytuno ar eich system-o-ddiddordeb a'r rhanddeiliaid y mae angen eu cynnwys, efallai y byddwch am sicrhau mewnwelediad ychwanegol ar safbwyntiau'r rhanddeiliaid trwy gynnal ymarfer delwedd fanwl.

## Gwybodaeth ategol



[An introductory systems thinking toolkit for civil servants \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Cymryd rhan



Mae model mochyn yn eich helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o farn eich rhanddeiliaid. Mae'n fframwaith ar gyfer deall nifer o safbwyntiau ac mae'n gofyn am gyfranogiad gan y rhanddeiliaid.

### Cydweithredu



Os bydd model mochyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd gall hyn fod yn fan cychwyn i ymdrechion cydweithredol.

## Mapio cyd-destun


### Beth yw hyn?

Offeryn yw mapio cyd-destun sy'n eich helpu i ystyried y ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb a'r hyn sydd o dan reolaeth neu ddylanwad y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u dwyn ynghyd i wneud gwelliannau i thema neu i fater o fewn thema. Mae cydweithio'n bwysig yma, gan y bydd diffinio'r hyn y mae gwahanol bobl yn ei gredu sydd y tu mewn a'r tu allan i ffocws y gwaith yn helpu i ddatgelu mewnwelediadau newydd am y sefyllfa. Mae'n meithrin dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei reoli neu y gellir dylanwadu arno a beth sy'n cyfyngu ar eich opsiynau neu'ch gweithredoedd.



### Pryd i'w ddefnyddio

Gall mapio cyd-destun eich helpu chi a'ch BGC i wneud penderfyniadau ynghylch y ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb drwy ystyried cylchoedd dylanwad mewn perthynas â thema neu fater o fewn thema.



### Sut i'w ddefnyddio


Gofynnwch i'r cyfranogwyr gyflwyno'r sefydliad neu'r buddiant y maen nhw'n eu cynrychioli ac yna disgrifiwch y thema neu'r mater o fewn thema rydych am i'r rhanddeiliaid ganolbwyntio arnyn nhw – ychwanegwch ddisgrifydd ar frig y diagram.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr ystyried ffactorau sydd o dan reolaeth uniongyrchol yn gyntaf ac yna symud i'r haen allanol nesaf a gorffen ar y ffactorau amgylcheddol.

Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd mapio gofynnwch i'r cyfranogwyr adolygu'r map gan ofyn y cwestiynau canlynol:

- ▶ Ydych chi'n cytuno â ble mae'r ffactorau wedi'u gosod? Os na, pam?
- ▶ Oes unrhyw beth sy'n eich synnu ar y map?
- ▶ Beth mae hyn yn ei olygu, yn eich barn chi, ar gyfer pennu'r ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb?

### Diagram mapio cyd-destun



Adapted from: An Introductory systems thinking toolkit for civil servants (Government Office for Science)

## Ystyriaethau

- ▶ Meddyliwch am y rhanddeiliaid yr hoffech eu cynnwys yn y gweithgaredd mapio cyd-destun, ai'r rhai sy'n gallu effeithio ar newid (penderfynwyr a newidwyr) neu sy'n cael eu heffeithio gan y thema neu'r mater o fewn y thema neu'r ddau.
- ▶ Rhowch 20-30 munud i wneud y gweithgaredd craidd ac yna digon o amser i fyfrio ar yr hyn y mae'r gwaith mapio yn ei ddweud wrth y grŵp.
- ▶ Mae'n well gwneud y gweithgaredd yn bersonol ond mae modd ei wneud ar-lein hefyd drwy ddefnyddio meddalwedd cydweithredol fel MIRO. Os ydych chi'n gwneud hyn ar-lein, ystyriwch sut rydych chi'n sicrhau bod lleisiau'r rhai sy'n llai cyfarwydd â defnyddio offer ar-lein yn cael eu clywed.

## Gwybodaeth ategol



[An introductory systems thinking toolkit for civil servants \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Cymryd rhan



Offeryn yw mapio cyd-destun a all helpu'r rhanddeiliaid i ystyried lefel eu dylanwad ar sefyllfa.

### Cydweithredu



Mae mapio cyd-destun yn galluogi'r defnyddwyr i archwilio lefelau dylanwad y gwahanol rhanddeiliaid a gosod ffiniau o amgylch system-o-ddiddordeb.

## Mapio systemau cyfranogol

### Beth yw hyn?


Mae mapio systemau cyfranogol yn dechreg diagramu i ddangos y ffactorau a'r perthynasau rhwng ffactorau mewn system-o-ddiddordeb. Mae'n cael ei gynhyrchu gan randdeiliaid sydd â gwybodaeth am y system-o-ddiddordeb. Mae'r broses mapio systemau yn helpu i newid y ffordd rydyn ni'n edrych ar faterion cymhleth a gall ein hysgogi i sicrhau bod grŵp amrywiol o actorion yn cael eu cysylltu a'u halinio'n fwriadol i wneud y mwyaf o'r ymdrechion i wella sefyllfa.



### Pryd i'w ddefnyddio

Gall mapio systemau eich helpu i weithio gydag eraill i wneud y canlynol:

- ▶ Ystyried diben system
- ▶ Nodi beth yw'r ffactorau pwysig mewn system
- ▶ Edrych ar y berthynas rhwng y ffactorau mewn system
- ▶ Eu helpu nhw i weld eu rôl yn y system ac wrth newid y system
- ▶ Edrych ar ganlyniadau bwriadol ac anfwriadol ffactorau newidiol yn y system
- ▶ Ystyried is-systemau
- ▶ Nodi meysydd ffocws ar gyfer newid






## Sut i'w ddefnyddio

Rhan gyntaf unrhyw ymarfer mapio systemau yw pennu'r ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb. Yn y bôn, ffiniau sy'n pennu beth sydd yn eich system i'w fapio a'r hyn sy'n cael ei hepgor (h.y. yr amgylchedd ehangach).

Bydd yn bwysig cytuno ar ffiniau ar gyfer eich system-o-ddiddordeb cyn ichi ddechrau unrhyw weithgaredd mapio.



Dechreuwch y gweithgaredd mapio trwy ofyn i'r cyfranogwyr nodi ffactorau yn y system-o-ddiddordeb.

Nodweddion ffactorau		
Newidynnau – gallant fynd i fyny neu i lawr	Gall y rhain fod yn swyddogaethau, prosesau neu ganlyniadau	Mae angen i labeli ar gyfer ffactorau fod yn fyr


Gallwch awgrymu rhai penawdau ar gyfer ffactorau ond peidiwch â bod yn rhy benodol gan y gall hyn gyfyngu ar y gwaith meddwl.

Pan fydd y rhestr o ffactorau wedi'i llunio ac wedi'i chytuno gan y grŵp rydych chi'n gweithio gyda nhw i ddatblygu'r map, gallwch chi wedyn ofyn i'r grŵp ddechrau cysylltu'r ffactorau maen nhw'n credu eu bod yn dylanwadu ar ei gilydd neu sydd wedi'u cysylltu ar hap. Does dim rhaid ichi ddechrau gyda'r canlyniad.

Pan fydd gennych chi fap drafft gallwch ofyn i'r cyfranogwyr ychwanegu cyfeiriad at y perthynasau rhwng y ffactorau (naill ai cadarnhaol neu negyddol). Cadarnhaol yw lle mae ffactorau sydd â chysylltiad achosol yn symud i'r un cyfeiriad ac mae perthynas negyddol yn golygu bod un ffactor yn symud i un cyfeiriad ond bod y ffactor arall yn symud i'r cyfeiriad arall. Os yw'r grŵp yn ansicr o gyfeiriad y berthynas gallwch ddefnyddio marc cwestiwn (?).


## Enghraifft symlach o ffactorau cysylltiedig ar fap systemau

### Perthynas gadarnhaol




Wrth i'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gynyddu, mae'r normau cymdeithasol ynghylch defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu cryfhau sydd yn ei dro yn arwain at fwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### Perthynas negyddol



Wrth i'r normau cymdeithasol ynghylch defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gynyddu, mae'r defnydd ar gerbydau preifat yn lleihau sydd yn ei dro yn cryfhau'r normau cymdeithasol.

### Perthynasau negyddol a chadarnhaol



Wrth i'r defnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus gynyddu mae'r galw am fwy o wasanaethau yn cynyddu. Heb ymyrraeth (h.y. cynyddu nifer y trenau a'r bysiau a'r seilwaith ategol) bydd y defnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau wrth i'r gwasanaethau presennol fynd yn orlawn ac yn waeth o ran eu hansawdd.

## Ystyriaethau

- ▶ Dewiswch eich rhanddeiliaid yn ofalus i adlewyrchu safbwyntiau amrywiol ar y thema neu'r mater o fewn y thema.
- ▶ Gall mapiau systemau fynd yn anhylaw os byddwch yn nodi ac yn mapio gormod o ffactorau. Rydych chi'n ceisio creu map sy'n caniatáu ar gyfer cymhlethdod y gellir gweithredu yn ei gylch.
- ▶ Gallwch gyfyngu ar nifer y ffactorau sy'n bwysig i'r system-o-ddiddordeb, gan ddibynnu ar ddiben y map.
- ▶ Dyfais ddysgu yw map systemau ac nid yw'n ceisio bod yn gynhwysfawr ond mae'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'r rhanddeiliaid rydych chi'n eu dwyn ynghyd.
- ▶ Mae eich map systemau yn cael ei lunio ar adeg benodol ond wrth ichi weithio gyda'ch grŵp dysgu a'ch cydweithwyr o'r BGC efallai yr hoffech ei newid. Mae'n well ystyried mapiau systemau fel diagramau byw – wedi'r cyfan mae system yn ddeinamig a bydd yn newid dros amser.
- ▶ Mae'n well creu mapiau systemau gyda gweithdy personol gan ddefnyddio papur, nodiadau post-it a pheniau.
- ▶ Gellir trefnu mapiau mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw. Mae meddalwedd mapio am ddim ar gael os hoffech chi ddefnyddio lliw ac amlygu is-systemau yn eich map.

- ▶ Os ydych chi'n defnyddio'ch map gyda phobl heblaw'r rhai a greodd y map, ystyriwch y stori rydych chi'n ceisio'i hadrodd a beth rydych chi am i bobl ei wneud ar ôl edrych ar y map.
- ▶ Efallai yr hoffech ystyried cryfder y berthynas rhwng y ffactorau yn y map a/neu'r ffactorau hynny sydd debycaf o gael effaith ar y canlyniadau rydych chi'n ceisio eu newid. Yn ystod y cam yma efallai yr hoffech chi ystyried tystiolaeth ymchwil neu ddata ychwanegol ar ben argraffiadau'r rhanddeiliaid.

## Gwybodaeth ategol



[An introductory systems thinking toolkit for civil servants \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

[Systems Mapping: How to build and use causal models of systems – pennod 5 \(Barbrook-Johnson & Penn\)](#)



**Meddalwedd mapio am ddim:**

[Kumu](#)

[yEd Live](#)

[Participatory Systems Mapper](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Integreiddio



Mae mapiau system yn ffordd ddefnyddiol o ddelweddu sut y gallai gwahanol rannau o'ch system-o-ddiddordeb ryngweithio.

### Cydweithredu



Trwy'r broses o fapio systemau gall y rhanddeiliaid ystyried system-o-ddiddordeb o sawl safbwynt.

## Mapio actorion

### Beth yw hyn?

Gellir deall eich system-o-ddiddordeb trwy nodi a dadansoddi actorion, perthynasau, rhyngweithiadau a dylanwadau allweddol ymhlith rhannau'r system.


Gall mapio actorion helpu i ddangos yn weledol y sefydliadau neu'r unigolion allweddol sy'n rhan o system, gan gynnwys pa mor ddylanwadol ydyn nhw a sut mae gwybodaeth yn llifo (neu beidio) trwy system. Ar sail hyn gallwch benderfynu ble mae bylchau neu rwystrau yn y system-o-ddiddordeb, ble mae yna egni a ble mae cyfleoedd i adeiladu perthynasau newydd.

Nod mapio actorion yw nodi'r ffactorau neu'r cydrannau sy'n cael effaith arwyddocaol ar ymddygiad, canlyniadau, neu ddeinameg y system drwyddi draw. Mae dadansoddiad mapio actorion yn rhan annatod o feddwl trwy systemau am ei fod yn helpu i ddatgelu'r perthynasau a'r rhyngweithiadau sy'n llywio gweithrediad y system.



### Pryd i'w ddefnyddio

Mae mapio actorion yn digwydd ar ôl ichi fapio'ch system-o-ddiddordeb a phan fyddwch chi am gael dealltwriaeth ddyfnach o'r perthynasau o fewn system gymhleth er mwyn bwydo'r penderfyniadau.



### Sut i'w ddefnyddio

Mae gwneud gwaith mapio actorion yn cynnwys proses systematig o archwilio a deall y perthynasau a'r rhyngweithiadau o fewn system.

Unwaith y bydd eich map systemau gennych gallwch ddechrau nodi'r elfennau neu'r cydrannau allweddol o fewn y system— gall y rhain fod yn unrhyw endidau sy'n berthnasol i'r system gan gynnwys pobl, sefydliadau a pholisiau. Rydych chi'n ystyried eu rolau, eu swyddogaethau, a'u pwysigrwydd, ac yn dechrau mapio'r berthynas a'r rhyngweithiadau.

I ddechrau, casglwch ddata a gwybodaeth berthnasol am yr actorion a'r rolau berthnasol yn eich system-o-ddiddordeb ac yna mapiwch y perthynasau a'r rhyngweithiadau yn eich map.

Mae modd gwneud hyn trwy ymchwil ddesg gan edrych ar yr ymchwil a'r dogfennau strategol sydd eisoes yn bod (gan gynnwys siartiau sefydliadol). Meddyliwch am y canlynol:

- ▶ Gyda phwy y gallai'r rhanddeiliaid craidd ryngweithio'n aml?
- ▶ Pa sefydliadau sy'n darparu cymorth?
- ▶ Pa grwpiau, byrddau neu bartneriaethau eraill sy'n bodoli sy'n dylanwadu ar benderfyniadau?
- ▶ Pwy sy'n ariannu pobl neu sefydliadau perthnasol?
- ▶ Ble mae polisi yn cael ei osod?

Unwaith y bydd gennych chi restr o'r actorion mwyaf dylanwadol, gallwch drosglwyddo'r rhestr i fap actorion. Byddai'n werthfawr wedyn dod â'r rhanddeiliaid ynghyd i edrych ar y perthynasau rhwng yr actorion ar y map. Mae'r cam hwn yn hanfodol wrth ichi ddechrau datgelu'r ffactorau neu'r elfennau yn eich system sy'n chwarae rhan ganolog wrth ddylanwadu ar y system drwyddi draw. Gyda'r cyfranogwyr, efallai yr hoffech chi am ystyried:

- ▶ Pa mor ymglymedig yw pob actor â'r system-o-ddiddordeb
- ▶ Cryfder y berthynas rhwng eich sefydliad/partneriaeth a'r actorion eraill ar y map
- ▶ Cysylltiadau rhwng yr actorion

O'r fan yma, gallwch ystyried ble mae momentwm ar gyfer newid, beth allai'r pwyntiau trosoledd fod a ble gallai rhwystrau fod.

### Ystyriaethau

- ▶ Mae hon yn debygol o fod yn broses ailadroddol. Efallai y byddwch am ailedrych ar y dadansoddiad a'i fireinio wrth i'r system ddatblygu, wrth i amser fynd heibio, pan fydd data newydd ar gael neu os bydd amcanion y dadansoddiad yn newid.

### Gwybodaeth ategol



[Canllaw i fapio actorion](#)

### Dolenni i 5 ffordd o weithio

#### Cydweithredu



Mae mapio actorion yn ffordd o edrych ar bwy sy'n ddylanwadol o fewn y system a chynyddu'r cydweithrediad â chyfranogwyr amrywiol.

#### Cymryd rhan



Mae mapio actorion yn broses sydd ar ei gorau o'i chyflawni gyda'r rhanddeiliaid.

## Dadansoddi'ch mapiau

### Beth yw hyn?

Er mwyn cynyddu'r cyfraniad y gall eich grŵp dysgu neu eich BGC ei wneud i'r eithaf, dylid dod â'r cyfranogwyr yn ôl at ei gilydd i archwilio'r mapiau'n systematig a thrafod pa fewnwelediadau y mae'r mapiau'n eu rhoi inni o amrywiaeth o safbwyntiau.

Does dim un offeryn i'ch helpu i wneud hyn, ond rydyn ni wedi rhestru cyfres o gwestiynau y gallech fod yn awyddus i'w harchwilio mewn gweithdy pellach gyda'r cyfranogwyr.




### Pryd i'w ddefnyddio

Unwaith y bydd gennych eich map system a'ch map actorion, mae'n bwysig oedi a myfyrio gydag eraill ar yr hyn y mae'r mapiau'n ei ddangos.



### Sut i'w ddefnyddio

Mae cydrannau allweddol dadansoddiad mapiau systemau yn cynnwys:



### Nodi a holi dolenni adborth

Rhan bwysig o archwilio'ch map system yw edrych ar ddolenni adborth. Mae dolenni adborth yn edrych ar achosion cylchol rhwng ffactorau mewn system. Gall dolenni adborth fod yn cydbwysu neu'n atgyfnerthu. Dolen gydbwysu yw lle mae dolen yn tueddu i adfer ffactor i'w werth gwreiddiol trwy leddfu'r cynnydd neu'r gostyngiad gwreiddiol. Dolen atgyfnerthu yw lle mae dolen achos ac effaith yn gweithredu i atgyfnerthu unrhyw newid yn un o'i ffactorau. Gall dolenni atgyfnerthu fod yn rhinweddol neu'n ddieflig gan ddibynnu a yw'r newid yn ddymunol neu'n annymunol.

### Mapio asedau a dadansoddi bylchau

Ffordd arall o ddadansoddi'ch map yw gweithio'n systematig trwy'ch map system, ar y cyd ag eraill, i ddeall ble mae asedau yn eich system-o-ddiddordeb a ble mae bylchau. Gallai asedau a bylchau gyfeirio at bolisiâu, technolegau, prosesau, sgiliau, adnoddau, rolau, perthynasau neu strwythurau.

Ble gallai fod bylchau mewn gwybodaeth, ymchwil, tystiolaeth neu ymarfer? Pam y gallai hynny fod? Mae'n bwysig peidio â mygu arloesedd oherwydd diffyg cronfa dystiolaeth ond ar yr un pryd sicrhau ein bod yn dysgu o brofiadau blaenorol ac yn gweithio'n effeithiol. Dylai unrhyw ymyriad newydd gael ei roi ar waith ar sail 'profi a dysgu'.

### Dadansoddi ymyriadau a chanlyniadau

Gallech chi feddwl hefyd pa fath o ymyriadau sy'n gyffredin yn eich system-o-ddiddordeb, pa rai sy'n gweithio'n dda a pham? Beth allwch chi ei ddysgu am y rhai nad ydyn nhw wedi gweithio'n dda? A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi bod yn sgil ymyriadau blaenorol?

Ble ar y map mae'r ymyriadau yn fwyaf tebygol o ddigwydd? Oes ymdrechion gan nifer o asiantaethau yn cael eu dyblygu? Sut y gellid alinio'r rhain?

Ble mae'r bylchau? Gallai fod yn ddiddorol hefyd ystyried pam mae cymaint o ymyriadau sy'n canolbwyntio ar un rhan o'r map. Er enghraifft, oes yna dystiolaeth gref o blaid ymyriad ar hyn o bryd? Sut a ble mae pŵer yn cael ei ddal a'i arfer yn y rhan yma o'r system?

Gall fod yn ddefnyddiol troshaenu actorion dros eich map systemau i ystyried ble gallwch chi gael dylanwad yn y system-o-ddiddordeb, ble mae momentwm yn bodoli eisoes, ble mae bylchau a ble gallech chi fod yn dyblygu ymdrechion.

### Ystyriaethau

- ▶ Does dim cyfyngiad ar y cwestiynau y gallwch eu gofyn ynghylch eich map system, ac felly efallai y byddai'n werth treulio peth amser mewn gweithgor yn ystyried pa fath o ddadansoddi fyddai'n fwyaf perthnasol i'ch grŵp dysgu neu'ch BGC, gan gynllunio cwestiynau yn unol â hynny.

### Gwybodaeth ategol



[Causal Loop Diagrams: A Short Handbook](#)  
(Cascade Institute)

### Dolenni i 5 ffordd o weithio

#### Cydweithredu



Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau gydag ystod o safbwyntiau gan gyfranogwyr amrywiol.

## Dadansoddi pwyntiau trosoledd

### Beth yw hyn?

Mae pwyntiau trosoledd yn fannau mewn system gymhleth (sefydliad, economi, dinas, ecosystem) lle gall newid bach mewn rhan o'r system arwain at newidiadau mawr mewn rhannau eraill o'r system. Gall dadansoddi pwyntiau trosoledd eich helpu i ddeall sut i gyflawni'r newid mwyaf yn y sefyllfa sydd o gonsŷrn ichi, oherwydd y ddeinameg a'r perthynasau o fewn y system-o-ddiddordeb. Gall pwyntiau trosoledd hefyd fod yn gyfleoedd lle gall y cyfranogwyr gael mwy o effaith trwy gydweithio.

Mae sawl fframwaith a all gael eu defnyddio i ddadansoddi pwyntiau trosoledd.

Un o'r fframweithiau hyn yw'r Model Graddfeydd Gweithredu<sup>1</sup>. Offeryn yw hwn i'ch helpu i weithio o fewn systemau addasol cymhleth i fynd i'r afael â mater sy'n peri pryder a nodi rhannau o'r system lle gallwch chi neu'r BGC fel partneriaeth gael dylanwad drwy gyfrwng eich arbenigedd, eich adnoddau neu'ch rhwydwaith.


Gall y Model Graddfeydd Gweithredu helpu'r defnyddwyr i feddwl am ble i ymyrryd o fewn system er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gael y trosoledd mwyaf. At hynny, gall helpu'r gwerthuswyr i gysyniadoli, nodi ac arfarnu camau o fewn system o'r fath.

Mae fframweithiau eraill yn cynnwys y 'Donella Meadows', '12 lle i ymyrryd mewn system'<sup>2</sup> a'r Model Mynyddoedd Iâ<sup>3</sup>.



### Pryd i'w ddefnyddio

Mae dadansoddi pwyntiau trosoledd fel arfer yn digwydd ar ôl i'ch nod ar gyfer newid system wedi'i gadarnhau a bod eich system-o-ddiddordeb wedi'i fapio. Gellir defnyddio'r math hwn o ddadansoddiad hefyd i werthuso newid mewn system gymhleth.





## Sut i'w ddefnyddio

Wrth ddadansoddi map, dylid gofyn hefyd i'r rhanddeiliaid fyfyrion ar yr hyn sy'n peri syndod neu sy'n ddi-ddorol yn y map, a pha gwestiynau i'w hystyried mewn dadansoddiad pellach.

Mae nodi pwyntiau trosoledd addawol yn eich system yn gweithio orau os oes gennych ddealltwriaeth dda o'r gwahanol rannau o'ch system a'r perthynasau rhyngddynt, gan ddefnyddio'r offer a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Gellir defnyddio'r pwyntiau trosoledd hyn fel sylfeini ar gyfer ymyriadau neu gamau i'w cymryd.

Pan fydd pwyntiau trosoledd wedi'u nodi, yn aml mae angen blaenoriaethu a nodi lle ceir yr effaith fwyaf, neu'r trosoledd mwyaf o fewn y system. Newid credoau, meddylfryd neu batrwm sy'n cynnig y trosoledd mwyaf o fewn system ond mae'r rhain yn anos i'w cyflawni.

Gall fod yn ddefnyddiol ystyried cynnwys rhanddeiliaid ehangach yn y broses hon, sef rhanddeiliaid y gallai eu safbwyntiau ar y grymoedd yn y system fod yn wahanol i'ch safbwyntiau chithau, gan ganiatáu ichi sicrhau dealltwriaeth fwy cyffwrdd.

## Ystyriaethau

- ▶ Weithiau, mae'r pwyntiau sy'n darparu'r trosoledd mwyaf yn wrthreddfol.
- ▶ Os ydych chi'n cynnwys rhanddeiliaid ehangach, ystyriwch pryd yw'r amser gorau ar gyfer hyn - ar y dechrau er mwyn trafod syniadau ynteu tua'r diwedd er

mwyn adolygu a rhoi sylwadau ar eich gwaith. Gall hyn gael ei wneud trwy weithdai, arolygon neu gyfweiliadau.

## Gwybodaeth ategol



[An introductory systems thinking toolkit for civil servants \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

[Iceberg Systems Thinking Model \(NPC\)](#)

[The Action Scales Model: A conceptual tool to identify key points for action within complex adaptive systems \(ucl.ac.uk\)](#)

[Thinking in Systems A Primer – pennod 6 \(Meadows\)](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Integreiddio



Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ystod lawn o ganlyniadau gweithred yn cael eu hystyried fel y gellir siapio gweithgaredd mewn un maes gwaith i ategu, yn hytrach na thanseilio, y gweithgareddau mewn meysydd eraill.

### Cydweithio



Mae'n dda cael amrywiaeth o safbwyntiau ar gyfer y gweithgaredd hwn.

## Tri gorwel

### Beth yw hyn?

Mae Tri Gorwel yn fframwaith i'ch helpu i feddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hwy yn hytrach na chanolbwyntio ar y presennol lle gallech golli cyfleoedd neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn sefyll prawf amser.

Mae'r model yn arbennig o bwerus pan gaiff ei ddefnyddio mewn gweithdy am y gall ddwyn ynghyd wybodaeth a safbwyntiau gwahanol i adeiladu gweledigaeth gyffredin o'r dyfodol yr hoffech chi weithio tuag ato a'r camau sydd eu hangen i gyrraedd yno. Gall hefyd eich helpu i weld y rôl y gall pob un o'r tri gorwel ei chwarae wrth sicrhau newid. Er bod y model yn weledol iawn ac y gall fod yn ffordd wych o grynhoi mater neu ddarlunio pwynt, mae'r broses yn aml yn bwysicach na'r cynnyrch.

Gellir cymhwyso'r model at unrhyw fater i helpu i feddwl am y canlynol:

- ▶ Yr angen i'r sefyllfa bresennol newid (Gorwel 1)
- ▶ Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol (Gorwel 3)
- ▶ Syniadau ar sut i gyrraedd yno o ble rydyn ni nawr (Gorwel 2)

Mae modd ei ddefnyddio hefyd i feddwl sut y gall pethau newid dros amser:

- ▶ Gorwel 1: ar hyn o bryd, tueddiadau a materion cyfredol
- ▶ Gorwel 2: tueddiadau sy'n dod i'r amlwg
- ▶ Gorwel 3: tueddiadau a allai ddominyddu'r dyfodol, gweledigaethau croes


Neu ystyried safbwyntiau gwahanol y rhanddeiliaid mewn unrhyw brosesau newid:

- ▶ Gorwel 1: y 'Deiliad Pŵer'
- ▶ Gorwel 2: yr 'Arloeswr'
- ▶ Gorwel 3: y 'Gweledydd'



### Pryd i'w ddefnyddio

Ar ôl ichi archwilio'ch system-o-ddiddordeb a nodi meysydd ar gyfer newid, gall y model tri gorwel eich helpu i ystyried gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.






## Sut i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r model mewn sawl ffordd wahanol, gyda lefelau amrywiol o fanylder.

Gellir cynnal gweithdy tri gorwel trwy ofyn y pedwar cwestiwn yn y ddelwedd isod:



Wedi'i addasu o: Three horizons toolkit: A toolkit to help you think and plan for the long-term (Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) a phhecyn cymorth The Future is Ours (Cronfa Achub y Plant a'r Ysgol Ryngwladol Dyfodoleg)

Gellir cynnal y math hwn o weithdy mewn cyn lleied â 30 munud (5 munud ar gyfer pob cwestiwn a 10 am adborth). Bydd hyn yn rhoi rhywbeth ichi ar lefel uchel iawn ond bydd yn dal yn addysgiadol i chi ac yn ddeniadol i'ch cynulleidfa.

Os hoffech gael rhywbeth manylach, gallwch adael i grwpiau drafod pob cwestiwn yn hirach a/neu ddarparu tystiolaeth a deunyddiau i fwydo'u trafodaethau.

Gallech chi hefyd ddefnyddio'r model i ofyn cwestiynau ychwanegol:

- ▶ Pa elfennau o Orwel 1 y dylen ni eu cadw yn y dyfodol?
- ▶ Ai'r dyfodol yw'r arloesi ynteu tuedd neu ateb ar gyfer y tymor byrrach?
- ▶ Pa dueddiadau a allai ddylanwadu ar Orwel 2 a 3 ac a allai fwrw'n cynllun ar gyfer newid oddi ar y trywydd?

## Ystyriaethau

- ▶ Mae pob un o'r tri gorwel yn bresennol ar hyn o bryd
- ▶ Does dim atebion cywir neu anghywir.
- ▶ Mae'r broses yn bwysicach na'r cynnyrch
- ▶ Defnyddiwch enghreifftiau y gall pobl uniaethu â nhw
- ▶ Gellir gwneud hyn ar eich pen eich hun ond mae'r model yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio gan grŵp

## Gwybodaeth ategol



[Beyond the present resource \(Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru\)](#)

[Futures toolkit for policymakers and analysts \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

[Pecyn cymorth Ein Dyfodol Ni \(Cronfa Achub y Plant a'r Ysgol Ryngwladol Dyfodoleg\)](#)

[Three horizons toolkit \(Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru\) Integreiddio Atal Cydweithio Tymor hir](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

Gall yr offeryn hwn eich helpu gyda meddwl a chynllunio hirdymor, cymryd rhan a chydweithredu.

### Cydweithredu



Gweithgaredd yw hwn sydd orau o'i wneud fel grŵp.

### Tymor hir



Gall y gweithgaredd hwn helpu i edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud nawr er mwyn cyflawni gweledigaeth gyffredin.

### Cymryd rhan



Mae cynnwys lleisiau a safbwyntiau amrywiol yn bwysig er mwyn adeiladu gweledigaeth gyffredin.

## Ôl-olygu

### Beth yw hyn?

Mae ôl-olygu yn ddull effeithiol o benderfynu ar y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau'r dyfodol a ffefrir. Mae'n dda ar gyfer y canlynol:


- ▶ Adeiladu diben cyffredin
- ▶ Nodi beth sydd o fewn rheolaeth y BGC neu bartneriaeth y BGC a beth sydd ddim
- ▶ Penderfynu pwy y tu allan i'r BGC neu bartneriaeth y BGC sydd angen cael eu cynnwys wrth wneud i'r dyfodol ddigwydd
- ▶ Creu darlun realistig o raddfa'r dasg o'ch blaen

Gellir defnyddio'r dull hwn yn dilyn ymarfer tri gorwel, pan fydd gennych chi ddyfodol a ffefrir.



### Pryd i'w ddefnyddio

Defnyddir ôl-olygu fel arfer wrth ddatblygu a phrofi strategaeth a/neu bolisi a phan fyddwch chi'n awyddus i ddeall yr amodau neu'r digwyddiadau a all helpu dyfodol penodol i ddod i'r amlwg. Defnyddiwch y dull hwn gyda set o senarios i ddeall opsiynau ac i baratoi ar gyfer set o ddyfodolau dichonadwy amgen.



### Sut i'w ddefnyddio

Mae i ôl-olygu chwe cham bras ac mae'n cymryd dros ddwy awr gan ddibynnu ar faint y grŵp a chymhlethdod y mater.

- ▶ **Cam 1:** Cyflwyno'r cyfranogwyr i'r offeryn Ôl-olygu
- ▶ **Cam 2:** Cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a ffefrir
- ▶ **Cam 3:** Archwilio'r gwahaniaethau allweddol rhwng heddiw a'r dyfodol a ffefrir
- ▶ **Cam 4:** Datblygu amserlen sy'n amlinellu'r newidiadau neu'r gweithgareddau allweddol sydd eu hangen i symud o'r realiti presennol i'r dyfodol a ffefrir
- ▶ **Cam 5:** Ystyried pa newidiadau neu weithgareddau sydd o fewn eich maes rheolaeth neu ddylanwad a'r rhai sydd y tu allan i'ch dylanwad uniongyrchol (cysylltu â gweithgaredd mapio cyd-destun)
- ▶ **Cam 6:** Cytuno ar y camau nesaf

## Ystyriaethau

- Un agwedd bwysig ar y dull hwn yw nodi ac ystyried yr hyn sydd o fewn rheolaeth y llunwyr polisi a'r newidwyr – ac y gellir ei gyflawni felly – a beth sydd y tu allan i'r rheolaeth ac felly sydd angen ei reoli.

## Gwybodaeth ategol



[Beyond the present resource \(Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru\)](#)

[Futures toolkit for policymakers and analysts \(Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth\)](#)

[Pecyn cymorth The Future is Ours \(Cronfa Achub y Plant a'r Ysgol Ryngwladol Dyfodoleg\)](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Cydweithredu



Mae hwn yn offeryn arall a all helpu i feithrin perthynasau ac ymddiriedaeth gyda'r cyfranogwyr.

### Tymor hir



Mae ôl-olygu yn sicrhau bod meddwl hirdymor yn rhan annatod o wneud penderfyniadau strategol.

### Cymryd rhan



Mae'n bwysig bod newidwyr a'r rhai y mae'r newid yn effeithio arnynt yn rhan o'r broses o nodi camau realistig ar gyfer dyfodol a ffefrir.

## Theori newid

### Beth yw hyn?

Mae theori newid (TN) yn ddull o fapio'r rhesymeg achosol rhwng ymyriadau (e.e. polisiau, strategaethau, rhaglenni neu brosiectau), eu heffeithiau, a'r rhagdybiaethau y maen nhw'n dibynnu arnyn nhw.


Daw diagramau TN mewn llawer o wahanol ffurfiau, o ddelweddau tebyg i ddiagram llif syml, gydag efallai dim ond llond llaw o flychau ac un neu ddau o gysylltiadau, i ddiagramau mawr a chymhleth gyda llawer o flychau, cysylltiadau, dolenni adborth ac esboniadau manwl.

Yr hyn sydd gan bob diagram TN yn gyffredin yw eu bod yn ceisio mapio'r cysylltiadau a'r llwybrau rhwng ymyriad a'i ganlyniadau. Maen nhw i gyd yn defnyddio rhyw fath o resymeg achosol i ddisgrifio pa effeithiau y gallai ymyriad eu creu a sut.



### Pryd i'w ddefnyddio

Pan fyddwch chi wedi mapio ble mae'r gweithgaredd presennol yn digwydd yn eich system-o-ddiddordeb ac wedi nodi pwyntiau trosoledd ar gyfer gweithgareddau pellach, dyma lle gallech ddatblygu TN gyda'ch BGC i brofi eu damcaniaethau a'u rhagdybiaethau ynghylch sut y gallai newid ddigwydd.




### Sut i'w ddefnyddio

Pan fyddwch chi wedi penderfynu ar y math o ddamcaniaeth newid sydd arnoch ei angen, dewiswch dempled priodol.

Dangosir llawer o enghreifftiau yn yr adnoddau cymorth. Dylai eich theori newid gynnwys y canlynol o leiaf:

- ▶ **Mewnbynnau:** yr adnoddau (wedi'u diffinio'n fras) a ddefnyddir neu sydd eu hangen
- ▶ **Gweithgareddau:** gweithredoedd, digwyddiadau ac ymrwymadau'r ymyriad.
- ▶ **Allbynnau:** cynhyrchion diriaethol uniongyrchol yr ymyriad. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn hawdd i'w diffinio a'u hadnabod, yn debyg i rywbeth fel deilliannau prosiect.
- ▶ **Canlyniadau:** effeithiau posibl ymyriad yn y tymor byr a chanolig. Gallai'r rhain fod yn anos i'w mesur a byddant yn llai diriaethol nag allbwn.
- ▶ **Effeithiau:** effeithiau hirdymor ymyriad a/neu'r newidiadau hirdymor y mae'n cyfrannu atynt.

## Enghraifft o dempled theori newid



Wedi'i addasu o: The Theory of Change Process – Guidance for Outcome Delivery Plans gan adran Ddadansoddi Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Gallwch naill ai ddechrau gyda'r effaith a ddymunir a gweithio yn ôl neu ddechrau gyda'ch mewnbynnau a gweithio ymlaen tuag at eich canlyniadau a'ch effeithiau.

Ar ôl ichi gytuno ar eich TN, efallai mai'r cam nesaf fydd dechrau meddwl am eich dangosyddion canlyniad, ar gyfer eich canlyniadau tymor byr, canolig a hir. Dangosir enghraifft isod:

Tymor byr	
Canlyniadau	Dangosyddion
Mae pobl wedi defnyddio gwefan X i ddeall effaith eu hól troed carbon	Erbyn X [dyddiad], X% o bobl yn defnyddio'r wefan X% o bobl yn mynegi bwriad i newid eu hymddygiad teithio
Tymor canolig	
Canlyniad	Indicators
Mae pobl wedi lleihau eu defnydd o geir sydd ag injan hylosgi fewnol	% o bobl yn defnyddio trafndiaeth lesol i deithio i'r gwaith % o bobl yn defnyddio cerbydau trydan

## Ystyriaethau

- ▶ Gan ddibynnu ar ddiben eich TN, ystyriwch lefel y manylder sydd ei hangen.
- ▶ Mae'n bwysig cydgynhyrchu TN gydag amrywiaeth o randdeiliaid.
- ▶ Efallai yr hoffech gynnwys tybiaethau rydych chi'n eu gwneud yn eich rhesymeg achosol rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau a'r effeithiau: bydd hyn yn helpu'r gwaith dysgu a gwerthuso a gall fod yn ddefnyddiol ychwanegu risgiau hefyd.

- ▶ Does dim ffordd gywir neu anghywir o ran sut i gyflwyno TN ond maen nhw'n tueddu i fod yn llinol oherwydd yr agwedd amser, sydd yn aml yn rhan allweddol o TN.
- ▶ Mae'n bosibl ychwanegu dolenni adborth (e.e. gallai cyflawni allbynnau penodol arwain at adnoddau ychwanegol neu fuddsoddiad mewn rhaglen).

## Gwybodaeth ategol



[Mapio Systemau: How to build and use causal models of systems – pennod 3 \(Barbrook-Johnson & Penn\)](#)

[The Theory of Change Process – Guidance for Outcome Delivery Plans \(Adran Ddadansoddi'r Llywodraeth\)](#)

[Theory of Change Basics \(ActKnowledge\)](#)

## Dolenni i 5 ffordd o weithio

### Cydweithredu



Mae'n bwysig cyd-gynhyrchu gyda'r rhanddeiliaid er mwyn sicrhau perchnogaeth gyfunol.

### Tymor hir



Gall TN eich helpu i gynllunio'r camau tymor byr a chanolig sydd eu hangen er mwyn cyflawni'ch canlyniad yn y tymor hwy.

## Cyfeiriadau

- 1 Nobles JD, Radley D, Mytton OT. The Action Scales Model: A conceptual tool to identify key points for action within complex adaptive systems. *Perspectives in Public Health*. 2022 Tach;142(6):328-337. doi: 10.1177/17579139211006747. Epub 2021 Mai 15. PMID: 33998333; PMCID: PMC9720704.
- 2 Meadows, DH. *Thinking in Systems – A Primer*. 2009. Llundain, Earthscan.  
Ar gael yn: [Meadows-2008.-Thinking-in-Systems.pdf \(fit.edu\)](#) Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024.
- 3 NPC. The Iceberg Model. Available at: [The Iceberg Model - NPC \(thinknpc.org\)](#). Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024



**Llunio Lleoedd**  
ar gyfer Llesiant yng Nghymru  
**Shaping Places**  
for Well-being in Wales

## Manylion cyswllt

Cysylltwch â ni: [ICC.llunio lleoedd@wales.nhs.uk](mailto:ICC.llunio lleoedd@wales.nhs.uk)

Contact us: [PHW.shapingplaces@wales.nhs.uk](mailto:PHW.shapingplaces@wales.nhs.uk)

